**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: LG/0218/22

Paul Davies AS
Cadeirydd
Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Paul.davies@senedd.wales

2 Mawrth 2022

Annwyl Paul,

Rwy'n ysgrifennu atoch i roi gwybod i chi am fy nghymeradwyaeth i'r Offeryn Statudol a gaiff ei lunio gan Lywodraeth y DU sy'n cynnwys elfennau o fewn cymhwysedd Gweinidogion Cymru.

Bydd y Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth (Gorchymyn Diwygio 2022) yn gwneud newidiadau i Orchymyn Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth 2008, sy'n OS ar draws y DU, yn dilyn ymgynghoriad ledled y DU â'r diwydiant a rhanddeiliaid.

Rwy'n cytuno, yn yr achos hwn, i gymeradwyo Victoria Prentis, y Gweinidog Ffermio, Pysgodfeydd a Bwyd, i wneud newidiadau i Orchymyn Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth 2008. Sefydlwyd y Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth gan Orchymyn 2008 o dan bwerau a roddwyd yn Neddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006 (Deddf NERC).

Mae'r offeryn hwn yn diwygio Gorchymyn 2008 a chaiff ei lunio gan yr Ysgrifennydd Gwladol o dan bwerau a roddir gan adrannau 87(1)a, 88 a 97(1) a pharagraffau 5 a 6 o Atodlen 10 yn Neddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006 gyda chymeradwyaeth Gweinidogion Cymru.

Mae adran 87 o Ddeddf NERC yn rhoi'r pŵer i'r "awdurdod priodol" wneud Gorchymyn sy'n sefydlu corff at ddiben neu ddibenion sy'n dod o fewn adran 88 (Dibenion a ganiateir gan fyrddau) ac i roi swyddogaeth neu swyddogaethau iddo sy'n dod o fewn adran 89 (Swyddogaethau byrddau a ganiateir).

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Diffinnir yr "awdurdod priodol" yn adran 96(1) o Ddeddf NERC, mewn perthynas â'r materion a nodir yn isadran 96(2), gyda'r Ysgrifennydd Gwladol yn gweithredu gyda chymeradwyaeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Gweinidogion yr Alban neu (yn ôl fel y digwydd) adran berthnasol Gogledd Iwerddon. At y dibenion presennol, mae'r materion yn "arfer pwerau eraill mewn perthynas â swyddogaeth drawsffiniol bwrdd".

Mae'r cyfnod rwyf yn rhoi cymeradwyaeth ar ei gyfer wedi'i gyfyngu i'r broses o basio'r Rheoliadau.

O dan Adran 96(1) o Ddeddf NERC, Gweinidogion Cymru yw'r "awdurdod priodol" ac mae ganddynt y pŵer i ddeddfu mewn perthynas â materion sy'n ymwneud â Chymru. Fodd bynnag, gan y bydd y gwelliannau arfaethedig yn effeithio ar swyddogaethau trawsffiniol AHDB, yr Ysgrifennydd Gwladol (gyda chymeradwyaeth y Llywodraethau Datganoledig) yw'r awdurdod priodol. Nid yw Gweinidogion Cymru, o dan y pwerau a nodir yn Neddf NERC, yn cael llunio OS o'r math hwn.

Mae buddiannau Cymru yn parhau i gael eu diogelu wrth i'r Gorchymyn fynd ar ei hynt Seneddol a bydd angen cymeradwyaeth Gweinidogion Cymru arno i'w basio.

Trafododd a mireiniodd swyddogion Llywodraeth Cymru Orchymyn Diwygio 2022 gyda'u cyd-swyddogion yn DEFRA, Llywodraeth yr Alban a DAERA, gan gynnwys datblygu'r ddogfen ymgynghori a'r ymatebion sydd wedi llunio cynnwys y Gorchymyn. Mae Llywodraeth y DU yn parhau i gydnabod y meysydd y mae'r Gorchymyn yn gymwys i Gymru fel rhai sydd o fewn cymhwysedd Gweinidogion Cymru. Mae swyddogion DEFRA wedi bod yn ymwybodol o'r angen i geisio cymeradwyaeth Gweinidogion Cymru ar gyfer Gorchymyn Diwygio 2022 ac wedi ymgysylltu'n llawn â swyddogion wrth i'r Gorchymyn gael ei ddrafftio ac wedi adlewyrchu sylwadau o fewn y Gorchymyn.

Rwyf yn anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeirydd Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad er gwybodaeth.

Cofion,



**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**